**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cyngor

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 23 Ionawr 2020 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | B Hopkins | C L Philpott |
| P M Black | D H Hopkins | S Pritchard |
| J E Burtonshaw | L James | A Pugh |
| J P Curtice | O G James | J A Raynor |
| N J Davies | J W Jones | K M Roberts |
| A M Day | L R Jones | B J Rowlands |
| P Downing | M H Jones | M Sherwood |
| C R Doyle | P K Jones | P B Smith |
| C R Evans | S M Jones | R V Smith |
| V M Evans | E T Kirchner | A H Stevens |
| W Evans | M A Langstone | R C Stewart |
| E W Fitzgerald | A S Lewis | D G Sullivan |
| R Francis-Davies | M B Lewis | M Sykes |
| S J Gallagher | R D Lewis | M Thomas |
| L S Gibbard | W G Lewis | L G Thomas |
| F M Gordon | C E Lloyd | W G Thomas |
| K M Griffiths | P Lloyd | L J Tyler-Lloyd |
| D W Helliwell | I E Mann | G D Walker |
| T J Hennegan | P M Matthews | L V Walton |
| C A Holley | P N May | T M White |
| P R Hood-Williams | H M Morris | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): M C Child, M Durke, J A Hale, Y V Jardine, E J King, D Phillips, C Richards a/ac G J Tanner

## 110. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog cyfreithiol gyngor ar y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gall fod gan y Cynghorwyr/Swyddogion ar yr agenda.

Atgoffwyd cynghorwyr a swyddogion gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" os oes gan y Cynghorydd/Swyddog gysylltiad i'w ddatgan yn unig. Nid oedd angen dychwelyd ffurflenni gwag. Hysbyswyd Cynghorwyr a Swyddogion hefyd fod yn rhaid i unrhyw fudd i'w ddatgan gael ei wneud ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Datganwyd y buddiannau canlynol, yn unol â ’r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe:

1) Datganodd y Cynghorwyr H M Morris a B J Rowlands gysylltiad personol â Chofnod Rhif 117 “Mabwysiadu Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor”.

## 111. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod Cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2019.

## 112. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 113. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### 1) Cydymdeimladau

### i) Y Cynghorydd Sybil Crouch

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar y Cynghorydd Sybil Crouch. Bu'r Cynghorydd Crouch yn gwasanaethu Ward Etholiadol y Castell am bron wyth mlynedd. Roedd y Cynghorydd Crouch yn Arglwydd Faeres pan roedd ei gŵr, y Cynghorydd David Phillips, yn Arglwydd Faer 2018-2019. Roedd hi hefyd yn gyn-aelod o'r Cabinet ac yn Gadeirydd Pwyllgor. Bu'r Cynghorydd Crouch yn gwasanaethu:

- Dinas a Sir Abertawe o 3 Mai 2012 i 5 Ionawr 2020.

Roedd y Cynghorydd Crouch yn adnabyddus ledled cymru am ei rôl fel cyn-Gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn ogystal â'i gwaith yng Nghanolfan Gelfyddydau Taliesin, sydd wedi dod yn brif ganolfan perfformiad ar gyfer cerddoriaeth, theatr a dawns.

Yn 2008, cyrhaeddodd rownd derfynol cystadleuaeth Merch Gymreig y Flwyddyn y Western Mail i ferched sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol wrth hyrwyddo democratiaeth.

**ii) Y cyn-Gynghorydd Derek James**

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar y cyn-Gynghorydd Derek James. Bu'r Cynghorydd James yn gwasanaethu Ward Etholiadol Uplands am 5 mlynedd ac roedd yn dad i Julie James, AC. Bu'r Cynghorydd James yn gwasanaethu

- Dinas a Sir Abertawe o 6 Mai i 10 Mehefin 2004.

**iii) Y cyn-Gynghorydd Ioan Stock**

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar cyn-Gynghorydd Sirol Gorllewin Morgannwg, Ioan Stock. Bu'r cyn-gynghorydd yn gwasanaethu bro Gŵyr ac mae'n dad yn nghyfraith i'r Cynghorydd Mark Thomas.

**iv) Y cyn-Gynghorydd Tom Hilton**

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar cyn-Gynghorydd Dinas Abertawe,Tom Hilton. Bu'r Cynghorydd Hilton yn gwasanaethu wardiau'r Castell a Glandŵr

**v) Ann Evans, chwaer y Cynghorydd Chris Holley**

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar Ann Evans, chwaer y Cynghorydd Chris Holley. Roedd Ann Evans hefyd yn swyddog y cyngor gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

**vi) Hazel Morgan, Gwraig y cyn-Gynghorydd Keith Morgan**

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar Hazel Morgan, gwraig y Cynghorydd Keith Morgan.

**vii) Y cyn-Gynghorydd John Bushell**

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar y cyn-Gynghorydd Dinas Abertawe a chyn-Gynghorydd Dinas a Sir Abertawe, John Bushell. Bu'r cyn-Gynghorydd yn gwasanaethu Ward Etholiadol Fairwood.

**viii) Margaret Hill, mam Sarah Lackenby**

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar Margaret Hil, mam Sarah Lackenby.

Safodd pawb a oedd yn bresennol i ddangos eu cydymdeimlad a'u parch.

**2) Tîm Cyllid Cleientiaid y Gwasanaethau Cymdeithasol**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol ei fod wrth ei fodd i ddatgan bod yr archwiliad gan Swyddfa'r Gwarchodwr Cyhoeddus yn nodi bod 'Tîm Cyllid Cleientiaid y Gwasanaethau Cymdeithasol' "yn dîm sy'n creu argraff; roedd y gwasanaeth a ddarparwyd yn rhagorol; maen nhw'n rhoi lles pennaf eu cleientiaid yn gyntaf ac roedd ganddynt systemau a gweithwyr achos gwych".

Mae hwn yn archwiliad rhagorol o'r modd y mae'r awdurdod yn ymdrin â chyfrifoldebau Gwarchodaeth nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

**3) Arwyr y Faner Werdd**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol y cyflwynir cynllun Gwobr y Faner Werdd gan Cadwch Gymru'n Daclus gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Mae'r wobr yn ymwneud â chysylltu pobl â'i gilydd gyda'r parciau a mannau gwyrdd gorau. Mae'n feincnod ar gyfer parciau a mannau gwyrdd yn y DU a'r tu hwnt. Lle bynnag y gwelwch chi Faner Werdd, rydych chi'n gwybod eich bod yn ymweld â lle eithriadol â'r safonau gorau. Gall amgylchedd o safon gael effaith fawr ar ein cymunedau, ein hiechyd a'n lles a'r economi.

Roedd wrth ei fodd i gyhoeddi bod Jeff Walton o Ardd Fwyd Gymunedol Llyn Golchi Cyfeillion Mayhill (a Hillside) yn un o'r ddau a gyrhaeddodd y rownd derfynol ar gyfer gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn.

**4) 50 mlwyddiant Abertawe fel dinas – Beiblau Sefydliad The Gideons International**

Diolchodd yr Aelod Llywyddol i Jeff Bowen o sefydliad ‘The Gideons Internationa’ am ddarparu copïau o'r Testament Newydd a'r Salmau i bob Cynghorydd ac eraill yng nghyfarfod y cyngor i gofio am 50 mlwyddiant Abertawe fel dinas.

**5) Santes Dwynwen**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol ei bod hi'n Ddydd Santes Dwynwen ddydd Sadwrn (25-01-2019) Santes Dwynwen yw nawddsant Celtaidd cyfeillgarwch a chariad Cymru. Mae poblogrwydd Dydd Santes Dwynwen a'r nifer sy'n ei ddathlu wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diweddar. Cofiwch ddweud wrth eich partner eich bod yn ei garu/charu.

**6) Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd**

Dinasyddion Abertawe a wobrwywyd yn rhestr anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd.

**a) Swyddog yn Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (OBE)**

i) Andrew James Falvey. Cyfarwyddwr Masnachol, Yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau Am wasanaethau i drafnidiaeth (Gorllewin Morgannwg).

**b) Medal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM)**

i) Susan Ann Croall. Am wasanaethau i gerddoriaeth yn Abertawe.

**c) Medal Heddlu'r Frenhines (QPM)**

i) Richard John Lewis. Dirprwy Brif Gwnstabl, Heddlu De Cymru

ii) Cwnstable Bharat Kumar Narbad. Heddlu De Cymru.

**7) Cywiriadau/Diwygiadau i Wŷs y Cyngor**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod adroddiad diwygiedig wedi'i ddosbarthu mewn perthynas â Chofnod Rhif 118 "Aelodaeth o Bwyllgorau" a bod Atodiad A o Wŷs y Cyngor a welir ar dudalennau 35 i 61, yn cyfeirio at Gwestiwn 2 Cwestiynau'r Cynghorwyr.

## 114. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

**i) Cydymdeimladau**

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol gyda thristwch at farwolaeth ddiweddar y Cynghorydd Sybil Crouch a thalodd deyrnged i'w gwaith fel cynghorydd.

Adleisiodd y teimladau a rannwyd yn flaenorol gan yr Aelod Llywyddol mewn perthynas â'r holl gydymdeimladau a dderbyniwyd yng nghyfarfod y cyngor.

**ii) Etholiad Seneddol - 12 Rhagfyr 2019**

Llongyfarchodd Arweinydd y Cyngor Tonia Antoniazzi (Etholaeth Gŵyr), Carolyn Harris (Etholaeth Dwyrain Abertawe) a Geraint Davies (Etholaeth Gorllewin Abertawe) am lwydo i ddychwelyd fel Aelodau Seneddol yn dilyn yr Etholiad Seneddol ar 12 Rhagfyr 2019.

**iii) Dinas-ranbarth Bae Abertawe**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod Cyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe wedi cael ei benodi. Dywedodd hefyd fod y £18miliwn cyntaf wedi cael ei dderbyn.

**iv) Menter y Sied Dynion**

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at ei gyhoeddiad yng nghyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2019 mewn perthynas â Menter y Sied Dynion a'r ffaith bod cronfa o £25,000 wedi'i sefydlu â'r nod o gefnogi'r fenter.

Dywedodd fod cais wedi'i dderbyn oddi wrth Ward Etholiadol Penderi a'r gobaith oedd mai'r ward hon fyddai'r cyntaf i elwa o grant o'r gronfa.

**115. Cwestiynau gan y Cyhoedd.**

Gofynnodd David Davies gwestiwn mewn perthynas 6 Chofnod Rhif 119 "Cwestiynau Cynghorwyr" - Cwestiwn 5:

*i)* *"A fyddai cystadleuaeth ar draws Abertawe yn briodol lle gallai pob ysgol enwebu ei Darllenwr y Flwyddyn*, *bachgen a merch, ac ymddangos gerbron panel a drefnir gan y cyngor a fyddai'n beirniadu'r enillwyr ac yn cyflwyno cwpan iddyn nhw a'r ysgol. Efallai gallai ein Gweinidog Addysg ddewis llyfr arbennig i'r cystadleuwyr ei ddarllen ac yna asesu eu gwerthfawrogiad beirniadol ohono a'u dychymyg.*

*Cymru yw gwlad y beirdd ac efallai bydd y gystadleuaeth hon yn ysbrydoli ysgrifenwyr posib y dyfodol. Mae gan Gaerdydd gystadleuaeth Canwr y Byd, gadewch i Abertawe gael Darllenwr y Flwyddyn."*

Croesawyd yr awgrym gan Aelod y Cabinet dros Wella, Dysgu a Sgiliau gan ddweud y darperir ymateb ysgrifenedig.

**116. Cyflwyniad - Dim.**

Ni dderbyniwyd cyflwyniadau.

**117. Mabwysiadu'r Cynllun Gostyngiad Treth Y Cyngor.**

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn esbonio'r gofyniad i ystyried yn flynyddol a ddylid diwygio neu ddisodli Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor presennol y cyngor a'r gofyniad naill ai i fabwysiadu cynllun newydd neu ailfabwysiadu'r cynllun presennol erbyn 31 Ionawr 2019.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Nodi Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 ('Rheoliadau'r Gofynion Rhagnodedig') a luniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ar 26 Tachwedd 2013, fel y'u diwygiwyd;

2) Nodi'r diwygiadau i "Reoliadau'r Gofynion Rhagnodedig" a gynhwysir yn Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2018, a ystyriwyd ac a gymeradwywyd gan CCC ar 7 Ionawr 2020;

3) Nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori a ymgymerwyd gan y cyngor ym mis Tachwedd 2018 ar feysydd disgresiynol y cynllun cyfredol;

4) Y bydd y cynllun presennol (2019/2020) mewn perthynas â'r meysydd disgresiynol (fel y'u nodir yn Adran 3 yr adroddiad) yn aros yn ddigyfnewid 2020/2021;

5) Y bydd y cynllun fel y'i nodir yn Adran 3 yr adroddiad yn cael ei fabwysiadu ac yr adlewyrchir unrhyw ddiwygiadau i'r rheoliadau a wnaed gan CCC yn y cynllun.

## 118. Aelodaeth Pwyllgorau.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflwyno a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y cyngor ar gyfer yr enwebiadau/diwygiadau i aelodaeth Cyrff y Cyngor. Dywedodd fod adroddiad diweddaredig wedi'i ddosbarthu.

Dywedodd fod Arweinydd y Cyngor wedi gwneud y newidiadau canlynol i Gyrff Allanol yr awdurdod:

**i) Cyrff Allanol - Cymdeithas Cominwyr Gŵyr**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor nad oedd hawl gan y cyngor mwyach i gael cynrychiolydd ar Gymdeithas Cominwyr Gŵyr. Tynnwyd enw'r Cynghorydd A H Stevens felly a dileodd y Gymdeithas ei enw o'r rhestr o gyrff allanol.

**Penderfynwyd** diwygio aelodaeth o Gyrff y Cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

**1) Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi**
Tynnu enw'r Cynghorydd H M Morris.
Ychwanegu'r Cynghorydd L V Walton.

**2) Panel Derbyniadau**
Lleihau maint y panel o 5 i 3 aelod.
Yr aelodau newydd fydd y Cynghorydd J P Curtice, A M Day ac R V Smith.

## 119. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

Cyflwynwyd deg (10) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd yr Aelod perthnasol o'r Cabinet trwy gyfrwng ymatebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs yn Cyngor.

Rhestrir y cwestiwn/cwestiynau atodol hwnnw/hynny yr oedd angen ymateb ysgrifenedig arno/arnynt isod:

**Cwestiwn 2**
Gofynnodd y Cynghorydd A M Day i'r Aelod perthnasol o'r Cabinet;

"*Dangosir 574 o sefydliadau yn yr Atodiad sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn hwn.*

*i) A yw'r sefydliadau o fewn Rhwydwaith Hysbysebu'r Cyngor yn rhannu'r wybodaeth a gesglir?*

*ii)* *Caiff £6,243.93 ei gasglu oddi wrth Rhwydwaith Hysbysebu'r Cyngor ar gyfer 2019-2020. A yw Aelod y Cabinet yn credu bod y cyngor yn cael gwerth ei arian ac yn derbyn ei gyfran deg?*

Nododd Aelod y Cabinet dros Gyflwyno a Pherfformiad y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**Cwestiwn 10**
Dywedodd Aelod y Cabinet dros Gartrefi ac Ynni y byddai yn y dyfodol yn dod ag adroddiad ar ymgysylltu â'r sawl sy'n cysgu allan, ac effaith Tai'n Gyntaf.

2) ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B

Cyflwynwyd un (1) 'Cwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' ar ei gyfer' Rhan B.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.55 pm

**Cadeirydd**